

BWLETIN YSGOL MISOL – CHWEFROR 2023

Swyddog Cyswilt Ysgolion Rhanbarthol (Gogledd Cymru)

“Mae wedi bod yn wych cwrdd â llawer o ysgolion yn ddiweddar i drafod eu darpariaeth a sut y gallwn gydweithio gyda’n gilydd i ddarparu cefnogaeth addysgol i blant aelodau’r Lluoedd Arfog. Mae llawer o brosiectau cyffrous yn digwydd ar draws y Gogledd i ysgolion gymryd rhan gan gynnwys sesiynau a diwrnodau hwyl Forces Fitness, grantiau 1 Mil a gweithdai celf, anfonwch e-bost ataf i ddarganfod mwy am yr hyn sy’n digwydd yn eich ardal chi ac i gymryd rhan!

Mae gennym hefyd lawer o gynlluniau cyffrous ar gyfer Mis y Plentyn Milwrol fis Ebrill eleni. Cysylltwch â ni i drafod syniadau a chynlluniau i ddathlu Mis y Plentyn Milwrol yn eich ysgol. Rydym ni’n gyffrous i weld sut rydych chi’n dathlu eich plant y Lluoedd Arfog!”

Cara, CaraLloyd-Roberts@ynysmon.llyw.cymru

Swyddog Arweiniol Cyfranogiad

“Ers Hydref mae 62 o blant oed ysgol gynradd bellach wedi cwblhau cwrs Llesiant 7 wythnos Little Trooper. Rydym wedi cael adborth gwych gan bawb a gymerodd ran. Gwaith gwych gan Ysgol Babanod Mount Street, Ysgol Gynradd Sain Tathan ac Ysgol Pen-y-bryn. Diolch i chi i gyd ac edrychaf ymlaen at weld eich Clybiau Little Troopers yn parhau a gwneud gwahaniaeth. Hefyd, bravo MAWR ychwanegol i Lilly, Evelyn, Conall ac Emelia o Glwb Troswyr Bach Ysgol Gynradd Sain Tathan a Cari a Lyla o Glwb Forces Life Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr, fe wnaethon ni fwynhau clywed gennych chi yn seremoni wobrwyo eich ysgol. Rydych yn llysgenhadon gwych i blant/pobl ifanc y Lluoedd Arfog trwy ledled Cymru.” Jo, Joanna.wolfe@wlqa.gov.uk

DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol, i dalu sylw dyladwy i egwyddorion y Cyfamod wrth arfer rhai swyddogaethau.

Daeth Dyletswydd y Cyfamod i rym ar 22ain Tachwedd 2022.

Rhagor o
wybodaeth
yma

CYLLID

SSCE Cymru Cymhorthydd rheoli achosion
Ar gael trwy gydol y flwyddyn.

Rhagor o
wybodaeth yma

Cyngor: Siaradwch â’ch Swyddog Cyswilt Ysgolion Rhanbarthol a defnyddiwch ganllawiau cyllido SSCE Cymru ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

HYFFORDDIANT

YN DOD
YN FUAN...
eDdysgu
SSCE

Sesiynau DPP SSCE Cymru
Dyddiadau ar gael ym mis Mawrth.

Gweler dyddiadau ac
archebwch yma

**Month of the
Military Child**
**Mis y Plentyn
Milwrol**

April/Ebrill | #MotMCCymru